GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran	Rheoli Risg Gweithredol
Swydd	Aelod Tîm Hydrantau a Diffoddyddion
Rhif y Swydd	502234
Gradd	7
Lleoliad	Pencadlys y Gwasanaeth Tân
Yn gyfrifol i'r	Rheolwr Tîm Cymorth Logisteg

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

PRIF BWRPAS Y SWYDD
I sicrhau profi effeithiol pob diffoddydd tân o fewn y sefydliad ynghyd â chyflawni gwaith archwilio a gwaith cynnal a chadw cyfyngedig o hydrantau tân o fewn ardal y Gwasanaeth o dan gyfarwyddyd Rheolwr y Tîm Hydrantau a Diffoddyddion.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:

1. I gyflawni archwiliadau hydrant a phlatio, yn ddiogel ac yn unol â Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004.

2. I gasglu a phrosesu gwybodaeth i gynnal gweithrediad effeithlon y Gronfa Ddata Hydrantau a'r System Ddata Symudol.

3. I gynrychioli'r sefydliad mewn cyfarfodydd lleoliadau arbennig â chyfranddalwyr allweddol.

4. I gynghori a darparu gwybodaeth leol yn ymwneud â dyluniad cynlluniau gosod hydrantau ar gynlluniau newydd, a chydlynnu gofynion cynllunio â staff cwmniau dŵr.

5. I sicrhau bydd yr holl waith a gyflawnir yn cydymffurfio â rheoliadau'r Arolygaeth Dŵr Yfed.

6. I gysylltu â staff gweithredol a'u cynghori mewn perthynas â lleoliadau a galluogrwydd hydrantau dŵr.

7. I ymweld ag unrhyw Orsaf neu Adran o fewn Ardal y Gwasanaeth ar gyfarwyddyd y Rheolwr Tîm Cymorth Hydrantau a Diffoddyddion er mwyn cyflawni'r Polisi Profi Cynnal a Chadw Cyfnodol (PC Ch C).

8. I ddiweddaru'r gronfa ddata ar gyfer adnabod a lleoli offer gan sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ar bob adeg.

9. I gasglu a chwblhau unrhyw ddogfennaeth/adroddiadau a all fod eu hangen.

10. I farcio asedau'r Gwasanaeth yn briodol yn unol â gofynion system farcio asedau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

11. I gynnal a chadw offer gwaith i'r safon angenrheidiol a chynghori'r rheolwr llinell o unrhyw offer sy'n ddiffygiol neu ar goll.

12. I arolygu a thrin diffoddyddion symudol, blancedi tân, systemau larwm tân a weithredir gan fatri a rîliau pibellau dŵr yn unol â system ansawdd BSI a Chanllawiau Trin Offer BAFE o fewn y rhaglen gynnal a chadw cynlluniedig blynyddol ac ymateb ar fyrder i ymholiadau pan fo'n ofynnol.

13. I sicrhau y cesglir a thrawsgludir deunyddiau bio-beryglus yn ddiogel i storfeydd (e.e. nodwyddau hypodermig).

14. I defnyddio cerbydau a ddarparwyd i ymgymryd â dyletswyddau a ddyranwyd yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Tîm Hydrantau a Diffoddyddion.

15. I gymryd cyfrifoldeb am berfformiad personol effeithiol.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen
- I gyflawni cymwysterau perthnasol o fewn amserlenni priodol i gefnogi rôl y swydd
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd
- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot o'r fath a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth
- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod
- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG
Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni